YSGOL BRYNREFAIL

Gweithdy Eurig

Ar Fawrth 6ed daeth Bardd Plant Cymru - Eurig Salisbury - i'r Adran Gymraeg i gynnal gweithdy barddoniaeth. Doedd neb yn siwr iawn beth oedd hyn yn ei olygu cyn yr ymweliad, ond yn y rhan gyntaf fe gawsom gyflwyniad ganddo ar beth yn union oedd gwaith bardd. Soniodd am y talwrn, yr ymryson a'r stomp. Wedyn dywedodd ein bod fel dosbarth am ysgrifennu cerdd ar bwnc pwysig - a beth well na llwyddiant diweddar Tîm Rygbi Cymru? Yn rhyfeddol o sydyn, daeth y syniad yn fyw, a chyn pen dim roedd gennym gerdd orffenedig gwerth ei halen. Dywedodd Eurig ei hun fod y darn yn un o'r pethau gorau y bu iddo lunio ar y cyd gyda disgyblion , ac y byddai'n hoffi ei chyhoeddi!! Yn rhy sydyn o lawer daeth y sesiwn i ben. Gobeithio'n arw y caiff gyfle i ddychwelyd i Frynrefail - i ysgrifennu cerdd am y Gamp Lawn efallai?!

Blwyddyn 9